# iSupport Ar Gyfer Dementia

## Modiwl 1 Cyflwyniad i ddementia

MODIWL

1

CYFLWYNIAD I DDEMENTIA

## Cynnwys

Cyflwyniad i ddementia ........................................................................................3

## Cyflwyniad i ddementia

**Pam fod y sesiwn hon yn bwysig?**
Mae dementia yn glefyd a all fod yn brofiad llethol i'r person â dementia, ond hefyd i chi fel gofalwr. Mae llawer o chwedloneg am ddementia, a bydd dysgu mwy yn helpu i egluro rhai camddealltwriaethau cyffredin.

**Sut fydd y sesiwn hon yn fy helpu?**
Mae'r sesiwn hon yn eich helpu i ddeall beth yw dementia a sut mae'n effeithio ar rywun. Mae'r wybodaeth yma yn hanfodol pan rydych chi'n ofalwr

**Beth fyddai yn ei ddysgu?**
1. Beth yw dementia?
2. Beth sy'n achosi dementia?
3. Beth sy'n digwydd i bobl â dementia wrth i'r clefyd ddatblygu?
4. Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod y person rydych chi'n gofalu amdano efo dementia
5. Sut i gael cymorth?
6. Beth yw ffocws y rhaglen yma?

### 1. Beth yw dementia?

Mae dementia yn digwydd o ganlyniad clefyd sy'n niweidio'r ymennydd dros amser. Mae dementia yn effeithio ar bob grŵp o gymdeithas a nid yw'n gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol, rhyw, grŵp ethnig na lleoliad daearyddol. Nid yw dementia yn rhan o heneiddio arferol. Er bod dementia yn fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn, gall pobl iau hefyd gael eu heffeithio.

### 2. Beth sy'n achosi dementia?

Achosir dementia gan nifer o glefydau sy'n dinistrio celloedd nerfol ac yn niweidio'r ymennydd, fel yr amlinellir isod.

### Clefyd Alzheimer

Clefyd Alzheimer yw'r achos mwyaf cyffredin o ddementia. Mae'n dinistrio celloedd a nerfau'r ymennydd, gan amharu ar y trosglwyddyddion sy'n cario negeseuon yn yr ymennydd, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am storio atgofion.

### Dementia fasgwlaidd

Mae dementia fasgwlaidd yn digwydd lle mae pibellau gwaed yn cael eu difrodi, mae cyflenwad ocsigen i'r ymennydd yn methu, ac o ganlyniad, mae celloedd yr ymennydd yn marw. Gall symptomau dementia fasgwlaidd ddigwydd naill ai'n sydyn, yn dilyn strôc, neu dros amser, trwy gyfres o strociau bach. Mae dementia fasgwlaidd yn cyfrif am 20% -30% o'r holl achosion o ddementia.

### Dementia gyda corffynnau Lewy

Mae dementia gyda chrynoadau Lewy yn debyg i glefyd Alzheimer yn yr ystyr ei fod yn cael ei achosi gan dirywiad a marwolaeth celloedd nerfol yn yr ymennydd. Daw ei enw o gasgliad annormal o brotein - corffynnau Lewy - yng nghelloedd nerfol yr ymennydd. Efallai ei fod yn cyfrif am oddeutu 10% o'r holl achosion o ddementia. Mae tua hanner y bobl sydd â chlefyd corffynnau Lewy hefyd yn datblygu arwyddion a symptomau clefyd Parkinson.

### Dementia blaen-arleisiol

Gyda dementia blaen-arleisiol - gan gynnwys clefyd Pick - mae difrod fel arfer wedi'i grynhoi yn rhan flaen yr ymennydd. Yn y dechrau, mae personoliaeth ac ymddygiad yn cael eu heffeithio'n fwy na'r cof.

### Achosion llai cyffredin o ddementia

Mae llawer o achosion eraill llai cyffredin o ddementia, fel dementia sy'n gysylltiedig ag alcohol a dementia oherwydd HIV/AIDS.

### 3. Beth sy’n digwydd i bobl â dementia wrth i’r clefyd ddatblygu?

Mae pob person yn unigryw a mae dementia yn effeithio ar bawb yn wahanol. Ni fydd unrhyw ddau berson yn datblygu'r un anawsterau yn union yr un ffordd. Nid y niwed i'r ymennydd yn unig sy'n penderfynu sut mae dementia yn effeithio ar rywun, ond hefyd ffactorau eraill gan gynnwys personoliaeth unigolyn, cwrs bywyd, iechyd a gweithrediad cyffredinol, a'r amgylchedd byw.

1. Gwiriwch eich dealltwriaeth

Beth sy’n digwydd i bobl â dementia?

Mae pobl â dementia yn aml yn anghofio pethau neu'n cael trafferth â'u cof. Dewiswch yr ateb cywir.

☐Gwir
☐Ffug

1. Gwiriwch eich dealltwriaeth

Beth sy’n digwydd i bobl â dementia?

Mae pobl â dementia yn aml yn anghofio pethau neu'n cael trafferth â'u cof. *Dewiswch yr ateb cywir.*

✓ Gwir: Dyma’r ateb cywir.

× Ffug: Dyma’r ateb anghywir.

Yr ateb cywir yw bod pobl â dementia yn aml yn anghofio pethau neu'n cael trafferth â'u cof.

**Mae gwahanol gamau i ddementia**



Gall symptomau dementia amrywio o golli cof i ychydig o anawsterau difrifol o ran y cof a’r meddwl sy'n ei gwneud hi'n amhosibl rheoli gweithgareddau bob dydd heb gymorth. Gall gweld dementia fel cyfres o gyfnodau helpu i ddeall y salwch. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli mai dim ond canllaw bras yw hwn ar ddatblygiad dementia. Ni fydd gan bawb sydd â dementia yr holl symptomau, a dim ond ar un cam o'r clefyd y gall rhai o'r symptomau ymddangos.

Yn gynnar yn y clefyd, gall pobl â dementia gael problemau cof, dod yn ddryslyd o safbwynt amser, mynd ar goll mewn lleoedd cyfarwydd a dangos anawsterau wrth wneud penderfyniadau.

Wrth i ddementia ddatblygu i'r cam canol, gall pobl â dementia ddod yn anghofus iawn ac angen help gyda gweithgareddau bob dydd fel siopa, gwisgo ac ymolchi.

Ar y cam hwyr, efallai ni fydd pobl â dementia yn adnabod perthnasau neu ffrindiau. Gallant ddangos newidiadau mewn ymddygiad a all beri gofid a phryder i'r person â dementia a'r rhai o'u cwmpas.

| 1. **Gweithgaredd** | | |
|---|---|---|
| Dyma rai pethau cyffredin a allai ddigwydd i bobl â dementia.<br><br>Ydych chi'n meddwl bod aelod o'ch teulu/ffrind/y person rydych chi'n gofalu amdano yn profi unrhyw un o'r canlynol?<br>*Dewiswch bopeth sy'n berthnasol.* | | |
| **A yw'r person rydych chi'n gofalu amdano…** | | **Enghreifftiau** |
| Yn cael trafferth cofio pethau a ddigwyddodd funudau ynghynt? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Anghofio digwyddiadau diweddar*<br>• *Ailadrodd cwestiynau* |
| Yn ei chael yn anodd gwneud gweithgareddau dyddiol? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Rheoli arian*<br>• *Siopa*<br>• *Paratoi swper* |
| Yn cael trafferth adnabod amser neu le? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Yn anghofio dyddiad ac amser apwyntiadau* |
| Yn cyfathrebu'n wahanol i sut roeddent yn arfer ei wneud? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Anhawster mynegi ei hun*<br>• *Anhawster dod o hyd i'r geiriau cywir* |
| Yn colli pethau? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Methu dod o hyd i eitemau cyffredin fel allweddi*<br>• *Amau fod pethau wedi eu dwyn* |
| Ymneilltuo yn gymdeithasol? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Dangos lleihad mewn gweithgaredd cymdeithasol*<br>• *Dim awydd gwneud unrhyw beth* |
| Yn dangos newid mewn teimladau neu bersonoliaeth? | ☐Ydyw<br>☐Na | • *Teimladau i fyny ac i lawr*<br>• *Yn fwy pryderus nag o'r blaen* |

4. **Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl fod gan y person rydych yn gofalu amdano ddementia**

Os credwch fod gan aelod o'r teulu neu ffrind ddementia, cam cyntaf da yw sicrhau ei fod yn gweld meddyg. Bydd y meddyg yn archwilio gweithrediad eu corff a'u hymennydd.

Un pwynt pwysig yw sicrhau nad ydi problemau cof y person yn cael eu hachosi gan gyflyrau eraill y gellir eu trin, fel iselder ysbryd, haint y llwybr wrinol, sgîl-effeithiau meddyginiaeth, diffyg fitaminau neu diwmor ar yr ymennydd.

Mae'n bwysig nodi a yw problemau cof y person yn rhan o ddementia mewn gwirionedd, ynteu'n rhan o rywbeth arall. Dim ond meddyg all wneud hyn, nid y rhaglen hon.

2. Gwiriwch eich dealltwriaeth

Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl fod gan y person rydych yn gofalu amdano ddementia.

**Beth yw'r cam cyntaf os rydych chi'n meddwl fod gan aelod o'r teulu neu ffrind ddementia.**
*Rhowch tic ar yr atebion rydych chi'n feddwl sy'n gywir.*

**Camau cyntaf**

☐ Galw ffrind neu berthynas.
☐ Defnyddio iSupport yn unig i gael help.
☐ Ffonio'r feddygfa a gwneud apwyntiad.
☐ Mae'r unigolyn wedi bod at feddyg eisoes ac wedi cael diagnosis o ddementia.

## 2. Gwiriwch eich dealltwriaeth

Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl fod gan y person rydych yn gofalu amdano ddementia.

**Beth yw'r cam cyntaf os rydych chi'n meddwl fod gan aelod o'r teulu neu ffrind ddementia.**

*Rhowch tic ar yr atebion rydych chi'n feddwl sy'n gywir.*

**Camau cyntaf**

× **Galw ffrind neu berthynas**
Er gall ffrindiau a theulu gynnig cefnogaeth, ni ddylid hyn gymryd lle archwiliad meddygol gan feddyg ardystiedig.

× **Defnyddio iSupport yn unig i gael help.**
Er bod y rhaglen hon yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth, ni ddylid hyn fod yn lle archwiliad gan feddyg ardystiedig.

✓ **Ffonio'r feddygfa a gwneud apwyntiad**
Dyma'r cam cyntaf gorau os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

✓ **Mae'r unigolyn wedi bod at feddyg eisoes ac wedi cael diagnosis o ddementia**
Rydych eisoes wedi cwblhau'r cam pwysig cyntaf.

## 5. Sut i gael cymorth?

Mae'n bwysig sylweddoli na allwch chi, ar eich pen eich hun, ddarparu'r holl ofal sydd ei angen ar y person sy'n byw gyda dementia, yn enwedig wrth i bethau fynd yn fwy cymhleth dros amser. Felly, rydym yn eich annog i estyn allan at aelodau'r teulu, ffrindiau, a sefydliadau neu wasanaethau proffesiynol am help.

Mewn sawl gwlad, ceir sawl adnodd sy'n ddefnyddiol iawn. Mae rhai am ddim tra bod eraill yn costio arian. Cysylltwch â'ch Cymdeithas Alzheimer's leol i gael gwybodaeth, cefnogaeth a gofal sydd ar gael yn eich ardal chi, ac a allai fod o fudd i'r person rydych chi'n gofalu amdano yn ogystal â chi'ch hun.

## 6. Beth yw ffocws y rhaglen yma?

Mae'r ffocws arnoch chi, sef gofalwr rhywun sydd yn byw efo dementia.

Gall dementia fod yn llethol. Am y rheswm hwn, mae iSupport yn darparu cefnogaeth i chi ymdopi gyda rhoi gofal o ddydd i ddydd. Mae'n bwysig iawn eich bod nid yn unig yn gofalu am y person sy'n byw gyda dementia, ond hefyd yn gofalu amdanoch chi'ch hun. Bydd iSupport yn dangos i chi sut i wneud hynny. Bydd hefyd yn dangos rhai sefyllfaeoedd cyffredin i chi a allai ddigwydd gyda phobl â dementia fel eich bod yn ymwybodol ac yn gallu ymarfer sut i ymateb i sefyllfaoedd o'r fath.

**Cadwch mewn Cof**

- Mae dementia yn effeithio ar ymennydd person.
- Mae dementia yn gyffredin, yn enwedig ymhlith pobl hŷn.
- Mae dementia yn glefyd, nid yn rhan o heneiddio.
- Fel cam cyntaf, mae'n bwysig gweld meddyg os yn bosibl.
- Mae'n bwysig eich bod chi'n gofalu amdanoch chi'ch hun, nid yn unig y person rydych chi'n gofalu amdano.
- Gall iSupport eich cefnogi chi fel gofalwr.

© Prifysgol Bangor